ANFON FY FFRIND 08

Meddwl Am Ymgyrchu

11 oed a hŷn

Gweithgaredd:

Trafodwch y gair 'ymgyrch gyda'r dosbarth cyfan. Beth mae disgyblion yn ei feddwl wrth glywed y gair? Beth mae'n ei olygu iddyn nhw? Beth mae cyfraniadau disgyblion yn ei ddweud wrthym am ystyr y gair 'ymgyrch'?

Rhannwch ddiffiniad geiriadur o'r gair 'ymgyrch'. Mae Geiriadur Prifysgol Cymru yn cynnig y diffiniad canlynol:

> *Ymgyrch eg.b. ll. -oedd, -ion, -au. Dull trefnus o weithredu ac iddo nod penodol, yn enw ysgogi diddordeb neu ennyn cefnogaeth.*

Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am ymgyrchoedd llwyddiannus yn y categorïau canlynol:

(a) Ymgyrch hysbysebu
(b) Ymgyrch wleidyddol

Trafodwch pa newidiadau roedd yr ymgyrchoedd hyn yn ceisio'u sicrhau a beth wnaeth yr ymgyrchoedd hyn yn llwyddiannus.

A all disgyblion feddwl am unrhyw ymgyrchoedd a oedd yn aflwyddiannus o ran cyrraedd y nod roedden nhw'n ei ddymuno?

Beth allai'r rhesymau fod am eu methiant?

Mae 72 miliwn o blant yn colli'r cyfle i fynd i'r ysgol